

Cofion

- Gyda thristwch y daeth y newydd am farwolaeth Elwyn Ll. Jones (Peniel) y penwythnos diwethaf. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â Marian, ei briod, a hefyd eu plant – Aled, Emyr, Arwyn ac Endaf, a’r teulu i gyd. Gweddïwn y bydd Duw yn dda wrthynt yn ystod y dyddiau hyn ac y byddant yn profi grym ei gariad a’i ofal drostynt oll yn eu profedigaeth sydyn.
- Yn Ysbyty Glan Clwyd y mae pedwar o’n haelodau – Aled Roberts, Jane Roberts a Morfydd Williams (Henllan) a Morfydd Roberts (Llanefydd). Treuliodd Llinos Roberts (Cefn Meiriadog) ychydig ddyddiau yno hefyd. Anfonwn ein cofion atynt oll a chyflwynwn hwy oll i ofal yr Arglwydd, gan hyderu y byddant yn cael eu diogelu a’u cadw’r dyddiau hyn.

Detholiadau

Os hoffech gael copi o
Raglen Cymanfaoedd Canu 2013-2014
(Hen Nodiant a/neu Sol-ffa),
rhowch eich archeb i arolygwr eich Ysgol Sul
ERBYN DYDD SUL, MEDI 29^{ain}
os gwelwch yn dda.

Pris: £1.35

(Arolygwyr: Wnewch chi roi eich archeb i Mair ddechrau’r wythnos ganlynol, os gwelwch yn dda?)



I ddod

- **GWASANAETH DIOLCHGARWCH YNG NGHAPEL SOAR, LLANFAIR TALHAIARN** nos Fercher Hydref 9fed am 7.00 pryd y bydd y Parch Thomas Evans Williams yn pregethu.
- **CYMDEITHAS LLANEFYDD** yng nghwmni’r ddwy Sian, sef Sian Bryn Hen gynt a Sian Bryniau Defaid nos Iau, Hydref 10fed am 7.00 yng Nghapel Llanefydd.
- **OEDFA ARBENNIG I’R FRO** yng nghwmni John Derek Rees yn Llansannan nos Sul, Hydref 20fed.
- **PENWYTHNOS BLAENORIAID** yng Ngholeg Trefeca, Tachwedd 8fed – 10fed. Noder mai nid penwythnos ar gyfer blaenoriaid newydd yn unig yw hwn a bod croeso cynnes i unrhyw flaenor i fynychu’r penwythnos. Manylion llawn ar gael gan Mair. Cysylltwch mewn da bryd, os gwelwch yn dda, er mwyn i ni fedru archebu lle ar eich cyfer.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 22^{ain} Medi 2013

Darlleniad y Dydd

1 Brenhinoedd 18:41-48

(BCND tud.332 / BCN: tud.303)

www.eglwysibroaled.com / www.rhaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

Bore da a chroeso i oedfaon y dydd. Pan feddylwch ni am yr wythnos diwethaf, tybed beth sy’n sefyll yn y cof gennym? Un digwyddiad y byddaf yn edrych yn ôl arno yw’r digwyddiad a greodd gynnwrf mawr yn y Fro. Roedd plant yr ysgolion allan yn chwifio baneri, hofrenyddion yn yr awyr, heddlu ar gefn beiciau modur cyflym yn fflachio ac yn chwyrlio ar hyd y ffyrdd. Ac achos y cynnwrf? Cerddwyr o Gapel i Gapel gynt ar eu pererindod?! Na, dwi ddim yn meddwl, ond y ras feiciau ‘Tour of Britain’ a Sir Bradley Wiggins a Mark Cavendish ayb yn eu plith. Roedd hi’n olygfa a hanner ac un na welwn ni eto, mae’n debyg, am amser maith.

Sut ydw i am gysylltu’r darlleniad heddiw hefo’r digwyddiad yma medde chi? Wel, os sylwch yn ofalus mae’r disgrifiad a roddir yn adnod 42 o Elias y proffwyd ar ben y mynydd yn debyg iawn i’r hyn a welwn wrth i’r enwogion hyn reidio’u beiciau. Dyma’r disgrifiad o Elias – “..... aeth Elias i fyny i ben Carmel, a gwargamu ar y ddaear nes bod ei wyneb rhwng ei liniau.” Onid ydi hwn yn ddisgrifiad da o feicwyr? Gwargam, a’u hwynebau rhwng eu gliniau!

Ond mae arwyddocad pwysig i’r hyn a ddarllenwn am Elias. Gweddïo y mae, a gwyllo. Gwyllo’r gorwel am arwydd glaw. Mae’n gofyn i’w was fynd i edrych saith gwaith beth sy’n digwydd ar y gorwel. Ar y seithfed gwaith daw’r adroddiad bod “cwmwl bychan, fel cledr llaw yn codi o’r môr.” Cyn hir, tywyllodd yr awyr a daeth y glaw trwm.

Pa mor weddigar ydym ni tybed wrth i ninnau chwilio am arwyddion bendith Duw yn ein plith? Arwyddion y glaw ysbrydol, sef y bendithion a ddaw i ni oherwydd fod Iesu wedi marw trosom ac wedi codi’n fyw. Bendithion Duw trwy ei Ysbryd ydi’r rhain ac maent yn werthfawr iawn. Tybed a ydym ni yn ddigon gweddigar, yn ddigon gwargam, a’n hwyneb rhwng ein gliniau yn ddigon aml i ni glywed Duw yn dweud bod y cwmwl bychan ar y gorwel ac y bydd yn dod â’i fendith drom cyn hir? Heddiw fe fydd cyfle i ni gydweddi’o eto am hyn a chael ein calonogi gan Dduw yng nghymdeithas ei bobl ac wrth wrando’i Air.

Aneurin

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss a bydd Aneurin yn pregethu.
- Llun • **CAP (Grŵp genod bl. 7-11)** yn y Granar yn Llansannan am 4.30.
• **Christian Viewpoint** (cyfarfod i'r merched) – “Coping with the Camel” (stori'r Torch Trust ar gyfer y deillion) gan Roselyn Barnes yng Nghanolfan Cymunedol Bae Cinmel am 7.30. £3 yn cynnwys bwffe.
- Mercher
lau • Grwp **Adnabod** (merched) yn cyfarfod yng Nghefn Meiriadog.
• **Cyfarfod Plant** yn Llansannan am 3.15.
• **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** dan arweiniad Tom Williams yn Llanefydd am 7.30.
• **Cwrdd Chwarter** yng Nghapel Ebeneser, Graigfechan am 7.00. Yn ystod y cyfarfod, bydd cyfle i groesawu Llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Y Parchg. J. Ronald Williams, Caernarfon, i annerch.
- Gwener
Gwener/
Sadwrn • **Cyfarfod Plant** yn Ysgol Pant Pastynog o 3.00-4.30.
• **ADUNIAD LLANW** yn y Bala.
- Sul nesaf • **Oedfa'r Fro** ar daith – y tro hwn yng Nghapel Saron am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig a bydd Rhodri yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Mawrth Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. R. W. Jones yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Cyhoeddiadau

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. R. W. Jones yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Dr Owain Edwards yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Saron am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun ym Mheniel am 10.00. (Sylwch ar y newid lleoliad.) Cynhelir Ysgol Sul i'r plant yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd y Parch John Robinson yn arwain oedfa gymun yn Henllan am 10.00 ac oedfa yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00 gyda phlant y ddwy eglwys yn cyfarfod yn Henllan.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Llanefydd am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion yng Nghefn Berain am 2.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:
Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, trwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.